

PRICE, RHYS (1807 - 1869), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Rhys Price
Dyddiad geni: 1807
Dyddiad marw: 1869
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Meddygaeth
Awdur: John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Penrhiw-llwyn-fynwent, Llangamarch, sir Frycheiniog, 27 Chwefror 1807; hanoedd o deulu parchus ac amlwg gyda chrefydd. Symudodd ei deulu i Lanwrtyd pan oedd yn ieuanc. Ni chafodd ond tri diwrnod o ysgol. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Rhoes ei fryd ar ddarllen a myfyrio yn ei oriau hamdden, a daeth yn batrwm o ddyn hunanddiwylliedig. Meddai alluoedd naturiol cryfion, eithr cyfrifid ef yn hynod am ei odrwydd yn caru'r encilion ac osgoi cyhoeddusrwydd. Dechreuodd bregethu yn Llanwrtyd, ac aeth y gair ar led am ei ddawn fel gweddiwr a phregethwr. Gwrthododd alwad o Ferthyr Tydfil am na allai ddygymod â bywyd y gweithfeydd. Ordeiniwyd ef yng Nghwmllynfell, 19 a 20 Awst 1835. Canolodd ei weinidogaeth o'r dechrau ar sefydlu cyrddau gweddio ac ysgolion Sul ar hyd y tai. Cymerth ofal (yn rhannol) o eglwys Baran a sefydlu canghennau yn Rhydyfno, Gwter Fawr (Brynaman), a Chwmtwrch Uchaf. Llefara'i'n llifeiriol a'i arddull ar ei ddelw ei hun. Gwrthodai fynd i gymanfaoedd, gan ddeuwis yn hytrach gwmni natur a'i lyfrau. Ystyrir ef yn awdurdod ar faterion meddygol, a bu ei lyfr, *Llysieu-lyfr Teuluaidd* 1840, yn safonol am dymor hir. Cyfansoddodd lawer o ddarnau barddonol o natur ddiwygiadol; disgyrnai ysbryd yr emynydd arno yn aml. Bu farw 6 Gorffennaf 1869.

Awdur

Y Parchedig John Dyfnallt Owen, (1873 - 1956)

Ffynonellau

Hanes Eglwys Cwmllynfell (1935), 49-79

Y Tyst Cymreig (Lerpwl 1867-1870), Gorffennaf ac Awst 1869

William Thomas, *Cofiant y diweddar Barch. Rhys Pryse, Cwmllynfell* (Llanelli 1872)

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 151-8

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734255](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Owen, J. D., (1953). PRICE, RHYS (1807 - 1869), gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PRIC-RHY-1807>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government